## Canllawiau ar Sut i Gadw Dyddiadur Gwaith â llaw

Bydd gofyn ichi gadw dyddiadur gwaith ar gyfer pob parsel o dir cynefin neu laswelltir parhaol cymwys sy'n cael ei reoli fel tir cynefin (HS20) sydd wedi'i gynnwys yn y contract. Rhaid cofnodi o leiaf y canlynol yn y dyddiadur gwaith:

- Cofnod o unrhyw waith tocio'r glaswellt.
- Cofnod o gyfnodau caeedig ar weirgloddiau a dyddiadau lladd gwair.
- Cofnod gwasgaru calch.
- Cofnod gwasgaru plaladdwyr angenrheidiol.
- Cynnal a chadw terfynau caeau traddodiadol.
- Unrhyw waith ar y tir cynefin sydd yn eich contract ar unrhyw ddiwrnod.
- Ar gyfer categorïau o gynefin lle ceir gofynion o ran rheoli lefelau pori, rhaid cofnodi'r da byw a gyflwynir a'r dyddiad pan mae da byw yn cael eu symud o'r cae neu eu lleihau (HS02, HS03, HS05 a HS06).

Rydym wedi creu'r templedi canlynol fel enghraifft o'r math o gofnod y mae angen ichi ei gadw. Cewch ddefnyddio eich dyddiadur eich hun, ond mae'nr haid ichi gofnodi'r holl wybodaeth o fewn y templedau.

**Pa fath o weithgareddau ddylwn eu cofnodi yn fy nyddiadur gwaith?**

- Dyddiad cynnal y gweithgaredd.
- Math o weithgaredd – e.e. gwasgaru tail (ble y caniateir hyn), tocio.
- Rhif y Ddalen a Rhif y Cae y mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal ynddo.
- Rhif Map neu faint y lle mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal. Defnyddiwch 'HW003' os ydy'r gweithgaredd yn cael ei gynnal o fewn Opsiwn Rheoli sydd wedi'i fapio. Os ydy'r gweithgaredd yn cael ei gynnal y tu allan i Opsiwn Rheoli, bydd angen ichi ddisgrifio ble yn y cae y mae'n cael ei gynnal e.e. 'sbot-chwynnu ysgall yn hanner gogleddol y cae'.
- Hyd neu Nifer, er enghraifft ' 5 coeden', '2 hectar o haidd wedi'i hadu', neu 'gyfradd/hectar o dail wedi'i wasgaru'.
- Enw/math y cynnyrch – ar gyfer unrhyw dail, plaladdwyr ac ati sy'n cael eu gwasgaru.

- Dull cynnal y gweithgaredd, os yn briodol.

**Templedi Dyddiaduron Gwaith**

Mae 2 fath o dempled ichi eu defnyddio:

- **Fersiwn 1** llenwi dalen ar wahân ar gyfer pob cae yn eich contract.
- **Fersiwn 2** cofnodi'r holl weithgareddau ar dir y contract un dydd ar y tro pan fydd y gweithgareddau hynny'n cael eu cynnal. Cofnodwch un cae ar gyfer pob llinell. Felly os ydych am gofnodi'ch bod wedi gwasgaru tail mewn 10 cae, bydd yn rhaid ichi gofnodi'r caeau hynny ar 10 llinell ar wahân.

## Templed ar gyfer y Dyddiadur Gwaith – Fersiwn 1

| **Cyfeirnod Dalen OS** | | **Rhif Cae’r OS** | | **Enw’r Cae (opsiynol)** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Dyddiad** | **Gweithgaredd** | **Rhif y Map** | **Hyd / Nifer / Cyfradd** | **Cynnyrch** | **Dull** |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

## Templed ar gyfer y Dyddiadur Gwaith – Fersiwn 2

| Dyddiad | Gweithgaredd | Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Rhif y Map | Hyd / Nifer / Cyfradd | Cynnyrch | Dull |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |